Cofnodion Craffu - Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol Partneriaeth

O bell trwy Microsoft Teams

Dydd Llun, 26 Chwefror 2024 am 10.00 am

Yn bresennol: Y Cynghorydd L R Jones (Chair) yn Llywyddu

Cynghorwyr

Y Cyng. Lyndon Jones (Cynullydd Panel Craffu ar Berfformiad Addysg Abertawe)
Y Cyng. Peter Black (Cadeirydd Pwyllgor Rhaglen Graffu Abertawe)
Y Cyng. Huw Murphy (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Pobl Ifanc ac Addysg Gymraeg)
Y Cyng. Sam Skyrme-Blackhall (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Pobl Ifanc ac Addysg Gymraeg)
Y Cyng. Sue Allen (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

Swyddogion

Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Helen Morgan-Rees	Cyfarwyddwr Arweiniol a Chyfarwyddwr Addysg yn Abertawe
Jenna Gravelle	Arweinydd Strategol Partneriaeth
Mary Francis Jones	Arweinydd y PYPC, Ysgol Arbennig Heol Goffa
Michelle Roberts	Swyddog Craffu (Abertawe)
Gareth Morgans	Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin
Steven Richard-Downes	Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro

---

36 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

37 Datganiad o Fuddiant

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant.

38 Cofnodion a Llythyr(au) yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023

Derbyniwyd y cofnodion a'r llythyr a oedd yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2022.

39 Edrych ar Berfformiad Blaenoriaeth 3 Partneriaeth

Yn rhan o'i raglen waith, cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i edrych ar berfformiad un flaenoriaeth wahanol o blith pedair blaenoriaeth Partneriaeth ym mhob cyfarfod. Felly croesawodd y Grŵp Cynghorwyr Ian Altman, Jenna Gravelle (Ymgynghorydd Arweiniol), a Mary Francis Jones (Ysgol Heol Goffa, Llanelli) i'r cyfarfod. Aethant ati i roi cyflwyniad ac i amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 Cynllun Busnes Partneriaeth ar gyfer 2023-2024.

Roedd yr adroddiad a'r drafodaeth yn ystyried y canlynol:

Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r holl ysgolion a lleoliadau i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil ac ymholi yn rhan allweddol o'u dysgu proffesiynol.

Nod y flaenoriaeth hon yw galluogi ysgolion a lleoliadau ledled y rhanbarth i ddefnyddio ymholi i sefydlu a chynnal rhythm dysgu, arloesi a newid. Bydd Partneriaeth yn:

i. Cefnogi twf rhwydweithiau o ysgolion i ddatblygu ystod o sgiliau ymholi trwy arwain ymholiadau yn eu lleoliadau eu hunain.
ii. Hyrwyddo cydweithio ar draws ein hysgolion i archwilio a datblygu ffyrdd o gynllunio dysgu digidol.
iii. Gweithredu system lle mae ysgolion yn barod i fentro, arbrofi ac arloesi eu harfer er mwyn codi safonau.

Amlinellodd yr Ymgynghorydd Arweiniol, Jenna Gravelle, ddiben Blaenoriaeth 3, ei rôl, a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â hyn.

Rhoddodd Mary Francis Jones (Arweinydd y PYPC) o Ysgol Arbennig Heol Goffa, Llanelli safbwynt ysgol ar effaith y gwaith yn y maes hwn. Amlinellodd y canlynol:

- Cyd-destun yr ysgol
- Y cylchoedd ymholi, gan gynnwys y tair blynedd ddiwethaf a'r modd y datblygwyd y PYPC
- Y broses ymholi, gan gynnwys yr hyn a weithiodd, yr hyn a allai fod yn well, a chamau gweithredu dilynol
- Prosiect peilot Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Casglu barn y staff a chanlyniadau arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Gweledigaeth a gwerthoedd newydd
- Adborth a hyfforddiant staff
- Cam cymryd camau gweithredu y Model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Y camau nesaf, gan gynnwys staff yn parhau â phrosiectau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Cydweithio â Partneriaeth

Nododd y Grŵp Cynghorwyr yr holl lwyddiannau, ond gofynnwyd am yr hyn nad oedd yn gweithio cystal, gan gydnabod y gall eraill ddysgu o hynny. Dywedodd Arweinydd y PYPC mai'r prif feysydd heriol oedd/yw:

- Dyrannu amser, gallu cael eich rhyddhau o'r ystafell ddosbarth, a sicrhau bod staff cyflenwi ar gael yn eich lle.
- Cyfranogiad staff, sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol ac yn cael eu cynnwys fel y gallant werthfawrogi'r hyn yr ydych yn ei wneud.

Crëwyd argraff ar y Grŵp Cynghorwyr gan y gwaith a oedd yn mynd rhagddo yn yr ysgol, a diolchwyd i Arweinydd y PYPC am ei chyfraniad gwerthfawr at y cyfarfod.

40 Amlinelliad o Agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024, ac unrhyw Adborth

Darparodd y Cyfarwyddwr Arweiniol, Helen Morgan Rees, adborth i'r Grŵp Cynghorwyr o gyfarfod Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor wedi newid i'r Aelod â hawliau pleidleisio yn Sir Gaerfyrddin, sef y Cynghorydd Glynog Davies. Cymeradwyodd pob Cabinet cyfansoddol newid i roi hawliau pleidleisio i Ddeiliaid Portffolio yn lle'r Arweinwyr.
- Cafodd llythyr y Grŵp Cynghorwyr o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 ei drafod a'i dderbyn gan y Cyd-bwyllgor.
- Rhoddwyd alldro ariannol i'r Cyd-bwyllgor ar gyfer 2022-23 a oedd yn cynnwys: Cyllideb Partneriaeth 2022-23, Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol, Alldro 2022-23, Incwm Grant ar gyfer 2022-23, Risgiau a Chyfleoedd a Chronfeydd Wrth Gefn.
- Adroddiad Ariannol Partneriaeth 2023-24 (Rhagfyr '23). Cafodd y Cyd-bwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Partneriaeth ar ddiwedd mis Rhagfyr 2023 a'r alldro a ragwelwyd ar gyfer 2023-24.
- Cafodd y Cyd-bwyllgor gyllideb ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2024-25 i'w hystyried a'i chymeradwyo 'mewn egwyddor', gyda'r bwriad o'i chymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 7 Mehefin 2024 ar ôl cael cadarnhad ynglŷn â chyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Diweddariad ar y Cynllun Busnes a'r strategaeth rhannu gwybodaeth.
- Y Proffil Risg Diweddaraf. Mae'n debygol y bydd angen diweddaru hwn yn sgil Cyhoeddiad y Gweinidog, a'r risg a achosir gan y diffyg eglurder ynghylch dyfodol Partneriaeth a chyllid yn y dyfodol.

41 Materion Ariannol a threfniadau Rheoli Risgiau a Llywodraethu y Cyd-bwyllgor

Darparodd Swyddog Arweiniol a Chyfarwyddwr Arweiniol Partneriaeth wybodaeth i'r Grŵp Cynghorwyr am faterion ariannol a threfniadau rheoli risgiau a llywodraethu Partneriaeth (sydd i'w cwblhau gan y Grŵp Cynghorwyr yn ôl y Cydgytundeb).

Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Cynghorwyr fod sefyllfa ariannol Partneriaeth ar y trywydd iawn a bod y cyllid yn cael ei wario mewn modd priodol er mwyn iddo gyrraedd ei dargedau cynllunio busnes ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Rhoddwyd trosolwg o'r gofrestr risgiau fel y mae ar hyn o bryd, a dywedwyd bod Partneriaeth bellach wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod y risg bellach wedi'i hisraddio ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Un o'r risgiau a allai gael effaith fawr yn y dyfodol oedd y diffyg eglurder o ran swyddogaethau a darpariaeth Partneriaeth yn dilyn cyhoeddiad diweddar Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Clywodd y Grŵp Cynghorwyr ei fod yn cynnig na fyddai'r cyllid bellach yn mynd i gyrff rhanbarthol ond yn lle hynny y byddai'n mynd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol. Byddai hyn yn newid rôl y cyrff rhanbarthol unwaith eto. Clywsom fod hyn yn

hynod arwyddocaol i Partneriaeth ac y byddai angen adlewyrchu hyn yn y gofrestr risgiau wrth symud ymlaen.

Roedd y Grŵp Cynghorwyr yn bryderus ynghylch yr ansefydlogrwydd parhaus y byddai hyn yn ei olygu i staff Partneriaeth, a'r risg y gallai rhai aelodau o staff ystyried symud i ffwrdd o'u rolau presennol i swyddi mwy sefydlog, a allai roi rôl Partneriath mewn perygl yn y pen draw. Teimlai'r Grŵp Cynghorwyr fod hyn yn risg ddifrifol a bod angen i'r staff a'r sefydliad gael eglurhad cyn gynted â phosibl.

42 Trafod y pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth sy'n deillio o'r cyfarfod hwn

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i ysgrifennu llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor yn dilyn cyfarfod heddiw.

43 Rhaglen Waith Craffu Partneriaeth

Nodwyd y Rhaglen Waith Craffu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

Cadeirydd